
Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg –
2021-22

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Gwybodaeth am Ofcom	2
3. Ein hymagwedd	3

Adtodiad

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau	7
--	---

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynnydd blynyddol o ran cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg yn ystod 2021-2022. ¹

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg a galluogi pobl i ryngweithio ag Ofcom yn yr iaith o'u dewis – boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.

Rhodddwyd deddfwriaeth Safonau'r Gymraeg i Ofcom mewn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2017. ² Roedd y rhain yn cynnwys 141 o Safonau, a fu'n galluogi i ni wneud mwy o waith yn y Gymraeg, fel cynhyrchu rhagor o ymchwil ymysg defnyddwyr a gwybodaeth am ein gwaith.

Cynnydd Ofcom o ran y Gymraeg

Mae hysbysiad cydymffurfio terfynol Ofcom gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi derbyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Ofcom. Mae gennym Uwch Gynghorydd y Gymraeg a Swyddog y Gymraeg sy'n rheoli gweithgareddau Cymraeg Ofcom. Mae hyn yn cynnwys gwaith cydymffurfio, gofynion cyfieithu, yn ogystal â chynhyrchu ar-lein, mewn print ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Bu i ni barhau i addasu ein rhaglen ddigwyddiadau yn llwyddiannus i'r cyfyngiadau Covid-19 i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad rhithwir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddefnyddio technoleg cyfieithu ar y pryd i sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg heb unrhyw rwystr. Bu i ni hefyd gynnal digwyddiad dwyieithog wyneb yn wyneb yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru fis Gorffennaf 2022.

Wrth gynhyrchu ein cyfathrebiadau Cymraeg, rydym yn teilwra ein dull i sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn cael eu cyfleu mewn ffordd ddifyr. Mae'r canlynol yn rhai o'n prif weithgareddau wrth weithio yn y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cyfieithu dros 796,000 o eiriau i'r Gymraeg, gan gynnwys cyhoeddiadau allweddol fel [Cysylltu'r Gwledydd – Cymru](#), a'i [ddangosfwrdd rhyngweithiol](#).
- Cynhyrchu ein [podlediad Cymraeg cyntaf](#), fel rhan o'r gyfres 'Bywyd Ar-lein'.
- Cynnal ymgyrch yn y cyfryngau sy'n gwbl ddwyieithog, '[Sathru ar Sgamiau](#)'.
- Cynhyrchu nifer o fideos Cymraeg, rydym wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ein [fideos Sathru ar Sgamiau](#), [fideos Iaith Arwyddion Prydeinig](#) a [fideos o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru](#).
- Lansio modiwl dysgu rhyngweithiol newydd ar y Gymraeg i staff.
- Cydweithio â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg drwy ymddangos mewn dau fideo sy'n tynnu sylw at arferion effeithiol yn ein gwaith o [hyrwyddo'r Gymraeg i staff](#) a darparu [digwyddiadau cyhoeddus ar-lein](#).

Mae manylion llawn ein gweithgareddau Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn Adran 3.

¹Rhwng Medi 2021 a Medi 2022.

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/96920/Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf

2. Gwybodaeth am Ofcom

- 2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein pencadlys yn Llundain, ac mae gennym swyddfeydd ym mhob gwlad yn y DU. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, a fideo ar-alw, telathrebu llinellau sefydlog a symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei [Bil Diogelwch Ar-lein](#), a oedd yn nodi cyfrifoldebau newydd Ofcom a fydd yn helpu i gadw pobl yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Rydym hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau newydd sy'n ymwneud â diogelwch telathrebu.
- 2.2 Mae Ofcom eisiau sicrhau bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau. Rydym hefyd yn helpu i wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu twyllo a'u bod yn cael eu gwarchod rhag arferion drwg. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl hŷn neu bobl agored i niwed. Daw ein dyletswyddau o Senedd y DU.

Ofcom yng Nghymru

- 2.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn sicrhau bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw ar draws y DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein swyddfeydd cenedlaethol yn gallu galw ar adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un ran o'r Deyrnas Unedig.
- 2.4 Mae swyddfa Ofcom Cymru yng Nghaerdydd ac mae'n cyflogi chwe aelod o staff amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac un aelod o staff rhan-amser sy'n ddi-Gymraeg. Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i annog staff i ddysgu Cymraeg ar y fewnrwyd staff. Mae'r sefydliad yn talu am wersi Cymraeg i staff hefyd.

Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

- 2.5 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am nifer o flynyddoedd, gan wneud yn siŵr bod gennym ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Comisiynydd.
- 2.6 Rydym wedi mynychu sesiynau briffio wedi'u trefnu gan y Comisiynydd ac wedi ymateb yn brydlon i bob ymholiad o ran y Gymraeg. Roeddem yn falch o weld ein gwaith yn cael ei ddewis fel enghreifftiau o arfer effeithiol gan y Comisiynydd eleni. Rydym yn croesawu rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â swyddfa'r Comisiynydd.

3. Ein hymagwedd

3.1 Nod Ofcom yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin ar yr un sail â'r Saesneg yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- cyflwyno deunyddiau'n weledol
- pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus, a'i fformat cyhoeddi.

Mae ein hymagwedd wedi'i ddylunio i alluogi pobl i ymwneud â'n gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Anelwn at arloesi yn ein cyfathrebiadau ac annog mwy o ymgysylltu gan siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amryw o gyfranwyr allanol Cymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus, cynhyrchu cynnwys Cymraeg rhyngweithiol a chyhoeddi cynnwys sy'n ymwneud â Chymru ar gyfryngau cymdeithasol.

3.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn defnyddio maen prawf cyson. Os yw'r mater dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddinasyddion a busnesau yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

3.4 Mae ein Swyddog Materion Rheoleiddio Diogelwch Ar-lein newydd yn siarad Cymraeg yn rhugl ac wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2022. Y swydd newydd hon fydd y prif bwynt cyswllt yng Nghymru wrth i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch ar-lein. Mae gan yr unigolyn y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gymryd y Gymraeg i ystyriaeth o'r cychwyn cyntaf.

3.5 Ym Mehefin 2021, fe wnaethom hysbysebu tair swydd wag ar Bwyllgor Cyngori Cymru, ac roedd siarad Cymraeg yn faen prawf dymunol. Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd y cyfweiliadau ar-lein gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, i sicrhau y gallai ymgeiswyr ddefnyddio'r Gymraeg heb unrhyw rwystr. Mae dau allan o dri o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae'r trydydd yn siarad Cymraeg fel ail iaith.

3.6 Ym mis Awst 2021, bu i ni hysbysebu swydd wag am aelod newydd o Fwrdd Cynnwys Ofcom ar gyfer Cymru, ac roedd siarad Cymraeg yn faen prawf dymunol. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg yn rhugl.

3.7 Fe wnaeth Ofcom gyfieithu tua 796,000 o eiriau i'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyhoeddiadau, newyddlenni, datganiadau newyddion, diweddariadau e-bost a thudalennau gwe³.

³Rhwng Medi 2021 a Medi 2022.

- 3.8 Ym mis Medi 2022 fe wnaethom lansio ein podlediad Cymraeg cyntaf, fel rhan o gyfres [‘Bywyd Ar-lein’ Ofcom](#). Yn cynnwys y podledwyr a chyflwynwyr, Jessica Davies a Melanie Owen, a’n Swyddog Materion Rheoleiddio Diogelwch Ar-lein yng Nghymru, bu i ni drafod realiti bywyd ar-lein i fenywod ifainc.
- 3.9 Roedd ein [hymgyrch ‘Sathru ar Sgamiau’](#), a redodd am 6 mis o fis Hydref 2021, yn canolbwyntio ar hysbysu’r cyhoedd am sgamiau ffôn a neges destun a phwysigrwydd rhoi gwybod i Action Fraud am y rhain drwy anfon neges destun i 7726. Roedd yr ymgyrch yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys fideos a graffigau Cymraeg.
- 3.10 Fe wnaethom gynhyrchu fideos Cymraeg a rannwyd gennym ar gyfryngau cymdeithasol a’n gwefan ar amrywiaeth o themâu, gan gynnwys [ein digwyddiad yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, gwybodaeth am gyfleusterau cyfnewid fideo brys ar gyfer defnyddwyr BSL](#), ac [esboniad fideo o waith Ofcom](#).
- 3.11 Roeddem yn falch iawn o gymryd rhan mewn dau fideo hyrwyddo ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Dewiswyd ein gwaith wrth hyrwyddo’r Gymraeg yn fewnol mewn fideo diddorol a chynhyrchu digwyddiadau ar-lein fel enghreifftiau o arfer effeithiol ym mis Mawrth 2022. Mae ein hastudiaethau achos a’r fideos cysylltiedig [ar gael ar wefan y Comisiynydd](#).
- 3.12 Gan gymryd ysbrydoliaeth o awgrymiadau arfer gorau Comisiynydd y Gymraeg, ym mis Mai 2022 [fe wnaethom gynhyrchu arolwg](#) yn cywain barn ein rhanddeiliaid Cymraeg am ein gwasanaethau Cymraeg. Roedd 94% o’r cyfranogwyr yn teimlo bod ein gwaith yn Gymraeg o’r un safon â’n gwaith yn Saesneg. Roedd y sylwadau’n cynnwys: *“Mae’r wybodaeth a’r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir o ansawdd uchel ac yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn defnyddio’r derminoleg gywir pan fyddwn yn gweithio’n ddwyieithog.”*
- 3.13 Fe wnaethom gynhyrchu [adroddiad Power BI rhyngweithiol Cymraeg](#) i gyd-fynd â’n hadroddiad Cysylltu’r Gwledydd - Cymru ym mis Rhagfyr. Mae’r dangosfwrdd arloesol hwn yn galluogi defnyddwyr i edrych ar ddata Cysylltu’r Gwledydd yn eu hardal leol, gan gynnwys ystadegau darpariaeth a defnydd ar gyfer rhwydweithiau sefydlog a symudol.
- 3.14 Mae ein cyfrif Twitter Saesneg ar draws y DU [yn hyrwyddo ein cyfrif Cymraeg yn rheolaidd](#). Rydym hefyd yn gweithio i wella ymgysylltiad drwy bostio’n ddwyieithog ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill megis Instagram a Facebook os yw’r pwnc yn ymwneud â Chymru. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi [fideo Cymraeg a Saesneg](#) o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar Instagram. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi [neges ddwyieithog ar Facebook](#) ym mis Gorffennaf yn dangos lluniau a dynnwyd gan ein Swyddog Sbectrwm yng Nghaerfyrddin wrth chwilio am ymyriant.
- 3.15 Mae ein digwyddiadau yng Nghymru’n cynnwys cyfranogwyr a chyflwyniadau dwyieithog, gyda rhanddeiliaid yn dewis siarad Cymraeg mewn sesiynau Holi ac Ateb. Rydym yn darparu cyfieithu ar y pryd yn ein digwyddiadau yng Nghymru, sy’n caniatáu i gyfranogwyr ddefnyddio’r iaith y maent yn fwyaf cyfforddus ynddi. Mae uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys sesiwn ar-lein Cymraeg S4C ‘Medru Hansh’ yn ein [digwyddiad Amrywiaeth mewn Darlledu rhyngwladol](#) ddiwedd mis Medi 2021, ein [digwyddiad ar-lein Cynllun Gwaith Ofcom](#) ym mis Chwefror 2022 a digwyddiad wyneb yn wyneb [mewn partneriaeth ag Undeb Amaethwyr Cymru](#) yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i fwrw golwg ar ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig.

- 3.16 Fe wnaethom gynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau pwysig yn Gymraeg yn ddiweddar, gan gynnwys Ymgynghoriad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC⁴; Adroddiad Blynyddol Ofcom 2021-22⁵; Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2021⁶; Cysylltu'r Gwledydd- Cymru 2021⁷ a Chyfyngau'r Genedl - Cymru 2022⁸.
- 3.17 Mae ein prif ymgynghoriadau⁹ yn cynnwys ffurflen ymateb Gymraeg er mwyn gwneud yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg yn gallu darparu adborth a sylwadau yn yr iaith o'u dewis.
- 3.18 Cafodd ein modiwl hyfforddiant rhyngweithiol gorfodol ar y Gymraeg ei lansio ym mis Medi 2022, a bydd yr holl staff allweddol yn ei gwblhau drwy ein porth Dysgu a Datblygu ar-lein ar y Fewnrwyd.
- 3.19 Cymerodd ein Heiriolwyr y Gymraeg¹⁰ ran yn y gwaith o brofi ein modiwl dysgu rhyngweithiol Cymraeg newydd ym Mai 2022, gan roi adborth gwerthfawr cyn ei lansio.
- 3.20 Yn olaf, mae Ofcom yn archwilio sut rydym yn ystyried buddiannau siaradwyr Cymraeg wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio. Fel yr amlinellir yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, rydym wedi mabwysiadu proses ffurfiol ar gyfer nodi deilliannau i siaradwyr Cymraeg mewn ffordd fwy strwythuredig a mesuradwy wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisi. Rydym yn gwneud hyn drwy ein Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg.¹¹ Roeddem wedi diweddarau'r Cynllun yn dilyn adborth gan Swyddfa'r Comisiynydd ym mis Mawrth 2022. Mae hwn wedi'i fodelu ar fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Ofcom i werthuso canlyniadau i gwsmeriaid.

Cwynion

- 3.21 Ym mis Mai 2022, anfonwyd cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol Ofcom yn Gymraeg. Mae Ofcom yn cydweithredu ag ymchwiliad y Comisiynydd i'r gŵyn.
- 3.22 Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom lansio [ffurflen gwynion ddwyieithog newydd](#) gan ddefnyddio Salesforce, system mae Ofcom yn ei defnyddio i reoli cwynion, ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno am ein gwaith yn Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod y cwynion hyn yn cael eu trin yn yr un ffordd â chwynion eraill a anfonir at Ofcom.
- 3.23 Mae [Gweithdrefn Gwynion Ofcom](#) yn esbonio sut rydym yn ceisio ymdrin â chwynion am ein safonau cyflenwi gwasanaethau. Gellir gweld y Gweithdrefn Gwynion ar ein gwefan¹² ac mae copi caled ar gael yn swyddfa Ofcom Cymru hefyd. Gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni ar unrhyw adeg i drafod materion y Gymraeg neu gwynion cysylltiedig, ac rydym yn eu hannog i wneud hynny ar y wefan.

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/modernising-bbc-operating-licence>

⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/annual-reports-and-plans/2021-22-annual-report>

⁶ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0030/228549/2020-21-adroddiad-blynyddol-ofcom-ar-y-bbc.pdf

⁷ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0033/229785/cysylltur-gwledydd-2021-cymru.pdf

⁸ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/242705/wales-report-2022-cym.pdf

⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements>

¹⁰ Mae ein Heiriolwyr y Gymraeg yn grŵp o staff wedi'u lleoli'n strategol ar draws timau allweddol, sy'n sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Gymraeg.

¹¹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/103023/welsh-language-standards-implementation-plan.pdf

¹² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales/welsh-language>

Manylion cyswllt

Os hoffech chi gysylltu â ni ynglŷn â Safonau'r Gymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost atom: ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A.1.1 **Asesu a oes angen cyfieithu.** Os bydd dogfen (er enghraifft, dogfen ymgynghori, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we, neges drydar, neu e-bost diweddarau rhanddeiliaid) yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn berthnasol iddynt, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A.1.2 **Trafodaethau rheolaidd am ofynion cyfieithu.** Mae penderfyniadau ynghylch cyfieithu Cymraeg yn cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys ein tîm iaith Gymraeg a'n prif dîm cyfathrebu yn Llundain.
- A.1.3 **Cydweithio'n agos gyda'r timau polisi.** Mae'r person sy'n arwain prosiect yn cael gwybod gan y tîm cyfathrebiadau a'r Tîm iaith Gymraeg bod angen cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen. Gall timau polisi hefyd dynnu sylw at y gofyniad iaith Gymraeg yn yr adnodd Rheoli Prosiect Anywhere PPM newydd. Wedyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein hamserlen gyhoeddi i wneud yn siŵr bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal, a'i chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A.1.4 **Gweithio'n agos gyda'r cyfieithwyr.** Mae gan Ofcom berthynas waith gadarnhaol â'n cyfieithwyr. Maen nhw'n cael gwybod cyn gynted â phosib bod dogfen y bydd angen ei chyfieithu ar y ffordd, a chytunir ar amserlen dychwelyd i gyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Darperir amcangyfrif o nifer y geiriau hefyd lle bo hynny'n bosib. Mae ein cyfieithwyr bob amser yn cyfieithu dogfennau Ofcom i'r safon uchaf, a hynny'n brydlon. Maen nhw hefyd yn cynnal geirfa o dermau cymhleth Ofcom er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cyfieithiadau. Eu nod yw gwneud yn siŵr bod cyfieithiadau i'r Gymraeg mor glir a chynhwysfawr â phosib, a hynny drwy ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A.1.5 **Gwirio'r ansawdd.** Mae tîm iaith Gymraeg Ofcom yn prawfddarllen ac yn golygu dogfennau sy'n cael eu cyfieithu'n allanol i sicrhau cysondeb, arddull a thôn sy'n briodol i'r sefydliad, yn ogystal â chywirdeb technegol. Mae'r dogfennau wedyn yn cael eu hanfon ymlaen at y tîm digidol i'w cyhoeddi ar yr un pryd ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg.